# Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

15.11.24

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
*Dear Parent / Guardian,*

Mae'r Nadolig wedi cyrraedd Ysgol Pencae gyda'r disgyblion yn brysur yn ymarfer eu sioe / Gwasanaeth Nadolig. Mae caneuon a charolau Nadolig i'w clywed o fore gwyn tan nos yma!
*Christmas has arrived at Ysgol Pencae and the children are busy practising their show / service. Christmas songs and carols can be heard all day long!*

**Iechyd a Diogelwch / Health and Safety**

Gan ystyried sut mae'r tymheredd wedi gostwng yn ystod yr wythnos ddiwethaf, gawn ni bwysleisio pa mor bwysig yw hi eich bod chi yn cerdded gydag eich plentyn i lawr i Glwb Brecwast yn y bore ac i fod yn ofalus wrth gyrraedd am 8.50. Er ein bod yn graeanu'r iard, maen nhw'n gallu bod yn slic peth cyntaf.
*With the dip in temperature that we've seen in the last week, can we please emphasise how important it is that you walk fown with your child to Clwb Brecwast in the morning and to also be careful when arriving at 8.50. Although we grit the yards, they can be slip first thing.*

**Sioe Shrec, Glantaf**
**Shrek Show, Glantaf**

Ddydd Llun aeth blwyddyn 6 i lawr i Lantaf i wylio act gyntaf sioe Shrec Ysgol Glantaf. Roedden ni wrth ein boddau gyda'r perfformiad a braf iawn oedd gweld gymaint o wynebau cyfarwydd cyn-ddisgyblion Ysgol Pencae.
*On Monday, year 6 went down to Glantaf to watch the first act of their show, Shrek. We enjoyed the performance and it was great to see so many familiar faces performing!*

**Maint Cymru / The size of Wales**

Daeth Maint Cymru i'r ysgol ddydd Llun i gynnal gweithdy gyda blwyddyn 3 a 4. Roedd y disgyblion yn trafod pwysigrwydd gofalu ar ôl y goedwig glaw. Trafodon nhw'r rhywogaethau sydd yn byw o fewn cynefin y goedwig glaw.

*Maint Cymru came in to hold a workshop with our years 3 and 4 pupils on Monday. The children discussed the importance of looking after the rainforest and they discussed the species that lived within the rainforest habitat.*

**Gêm Rygbi Pencae v Llandaff City Primary School**

Prynhawn dydd Llun, aeth sgwad rygbi Ysgol Pencae i Ysgol Dinas Llandaf i fwynhau gêm o rygbi. Pencae oedd pencampwyr y dydd ac roedden ni'n falch iawn o'r disgyblion a'r ffordd roedden nhw'n chwarae'n llawn brwdfrydedd.

*On Monday afternoon, the rugby squad went to Llandaf City School to enjoy a game of rugby. The winners on the day were Ysgol Pencae and we were so proud of the way the pupils played, the enthusiasm was contagious!*

**Bl2: Ymweld â'r Gadeirlan / Cathedral Visit**

Cafodd blwyddyn 2 fore i'r brenin yn ymweld â'r Gadeirlan. Mwynheuon nhw grwydro'r adeilad godidog cyn tawelu i ymlacio a braslunio'r ffenestri gwydr. Maen nhw wedi cael ysbrydoliaeth ar gyfer eu celf Nadolig yn ystod eu hymweliad!

*Year 2 had a wonderful morning when they walked down to the Cathedral. They enjoyed walking around the building before settling to sketch the coloured windows. They even had inspiration aroud what they were going to make as their Christmas art project.*

**Bl5 a 6: Ymweliad gan Taylor Wimpey Visit**

Daeth Taylor Wimpey i ymweld â disgyblion blwyddyn 5 a 6 er mwyn dangos sut roedd ein tai lleol yn gynaliadwy. Roedd y disgyblion yn llawn cwestiynau ac yn dangos eu dealltwriaeth o fyw'n gynaliadwy yn arbennig.

*Taylor Wimpey came to visit year 5 and 6 today to show how the houses had been built with sustainability in mind. The children were full of questions and showed their deep understanding of the importance of sustainability.*

**Clybiau / *Clubs***

| | **Dydd Llun** ***Monday*** | **Dydd Mercher** ***Wednesday*** | **Dydd Iau** ***Thursday*** | ***Dydd Gwener Friday*** |
|---|---|---|---|---|
| ***12.45 - 13.15*** | | | | ***Bl3-6***<br>Clwb Chwaraeon Urdd<br>Urdd Sports Club<br><br>archebu lle / book a place |
| ***3.30 - 4.30*** | *Clwb Canu (singing)*<br><br>*Clwb Pêl-rwyd (netball)* | *Dancefit* | ***Code Club***<br>Aelodau yn unig / members only | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ***3.30 - 4.30***<br>Pêl-droed / Rygbi<br>*Football / Rugby* | |

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend*,

Siwan Dafydd

| **Mis Tachwedd**<br>**Sialens Siarter Iaith y Teulu**<br>***Language Charter Family Target*** | **Mis Tachwedd**<br>**Proc i'r Cof Diogelwch ar y We**<br>***Internet Safety Tip*** | **Mis Tachwedd**<br>**Hawliau Plant**<br>***Children's Rights*** |
|---|---|---|
| Beth am ddweud diolch yn Gymraeg bob tro.<br><br>*How about using Diolch (thank you) in Welsh everytime you shop.*<br><br>DIOLCH<br>Diolch | Mae Kiddle yn borwr gwe fwy diogel i blant.<br><br>*Kiddle is a safer web browser for children.*<br><br><br> | Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel.<br><br>*You should not be harmed and should be looked after and kept safe.* |

| **Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:** | | |
|---|---|---|
| Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form | | |
| Ffurflen Gwyliau / *Holiday Form* | | |
| Clwb Carco | | |
| Gwaith cartref / Home Work | | bit.ly/gwaithcartrefPC |

**DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY**

**Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser**

**Here are key dates and more information will be shared nearer the time**

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---|---|
| **26.11.24** | **Bl6:** Trip Crucial Crew<br>Crucial Crew Trip |
| **26.11.24** | **Bl3:** Trip i'r sinema, The Jungle Bunch World Tour (Cineworld)<br>Cinema Trip, The Jungle Bunch World Tour (Cineworld) |
| **3.12.24**<br>**5.12.24** | **Derbyn, Blwyddyn 1 a 2:** Sioe Nadolig yr adran Dysgu Sylfaen<br>**Reception, year 1 and 2:** Foundation Learning Christmas Show |
| **5.12.24** | **Stondin Gacennau Bl6 ar yr iard -** dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6.<br>**YR6 Cake stall on the yard** - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party. |
| **6.12.24** | **Dros 7:** ymarfer Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan<br>**Over 7's**: Christmas Service Practice at the Cathedral |
| **10.12.24** | **Bl1 a 2:** Mynd i'r Sherman: Yr Hugain Fach Goch<br>Going to the theatre: Little Red Riding Hood |
| **11.12.24** | **CINIO NADOLIG / CHRISTMAS DINNER** |
| **13.12.24** | **Ffair Nadolig / Christmas Fair**<br>Ar dir yr ysgol yn syth ar ôl ysgol / *On School grounds straight after school* |
| **17.12.24** | **Derbyn a Bl1:** Trip i sioe Cyw<br>**Reception and Year 1:** Trip to Cyw Christmas Show |
| **18.12.24** | **Bl3-6:** Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan 9.30yb<br>Cathedral Christmas Service - 9.30am |
| **20.12.24** | Diwrnod Olaf tymor yr Hydref / Last Day of Autumn Term<br>**23.12.24 - 6.1.25:** Gwyliau Nadolig / Christmas Holiday |
| **6.1.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |
| **7.1.25** | Disgyblion nôl yn yr ysgol<br>Pupils back in school |
| **3.2.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |
| **24.2.25 - 28.2.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **17.3.25 - 21.3.24** | **Bl5:** Gwersi Seiclo<br>Cycling Lessons |

| | |
|---|---|
| **9.4.25 - 11.4.25** | **Bl4:** Maes y Fron<br>Call of the Wild |
| **11.4.24** | Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term<br>**14.4.25 - 25.4.25:** Gwyliau Pasg / Easter Holiday |
| **26.5.25 - 30.5.25** | Hanner Tymor / Half Term |
| **2.6.24 - 3.6.24** | **Bl3:** Pentre Ifan a Chastell Henllys<br>Pentre Ifan and Castell Henllys |
| **9.6.25 - 20.6.25** | **Bl3:** Gwersi Nofio<br>*Swimming Lessons* |
| **18.7.25** | Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term<br>**2.30pm:** Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly |
| **21.7.25** | Diwrnod HMS / Inset Day |